# Crynodiad a màs

## Cyflwyniad

Mae'r cwestiynau hyn wedi cael eu dylunio i'ch helpu chi i ddatblygu modelau meddyliol (lluniau yn eich pen) o hydoddiannau sydd â chrynodiadau gwahanol wedi'u mynegi mewn g/dm³. Defnyddiwch yr eicon yn yr ymyl i ddarganfod pa lefel o ddealltwriaeth mae'r cwestiwn yn ei datblygu.


**Macroscopig:** beth allwn ni ei weld. Meddyliwch am y priodweddau y gallwn eu harsylwi, eu mesur a'u cofnodi.

**Is-ficrosgopig:** llai nag y gallwn ei weld. Meddyliwch am y lefel ronynnol neu atomig.

**Symbolaidd:** cynrychioliadau. Meddyliwch sut rydym yn cynrychioli syniadau cemegol, gan gynnwys symbolau a diagramau.

## Cwestiynau


1. Mae crynodiad yn cymharu faint o hydoddyn sydd wedi hydoddi yn yr un cyfaint o ddŵr.
   Mae tri màs gwahanol o grisialau oren yn cael eu hydoddi mewn cyfeintiau cyfartal o ddŵr.
   Mae hyn yn ffurfio tri hydoddiant sydd â gwahanol grynodiadau.




(a) Rhowch lythyren y cymysgedd a fydd yn ffurfio'r hydoddiant sydd â'r crynodiad uchaf.


© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

(b) Labelwch yr hydoddiannau gyda llythyren y cymysgeddau a oedd wedi'u creu.



__________ __________ __________

2. Po fwyaf yw màs hydoddyn sydd wedi hydoddi mewn cyfaint penodol o ddŵr, y mwyaf o ronynnau hydoddyn sydd yn yr hydoddiant. Mae gan hydoddiant mwy crynodedig fwy o ronynnau hydoddyn mewn cyfaint penodol na hydoddiant llai crynodedig.
Mae gwefan yn dangos dau hydoddiant sydd â gwahanol grynodiadau drwy ddefnyddio model gronynnau syml.



A B

(a) Rhowch lythyren y diagram sy'n dangos yr hydoddiant sy'n fwy crynodedig. ☐

(b) Awgrymwch un ffordd mae'r diagramau'n helpu i egluro crynodiad.


______________________________

______________________________

______________________________

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

Mae gwefan arall yn defnyddio diagram gwahanol i ddangos y gronynnau sy'n ffurfio hydoddiant mwy crynodedig a llai crynodedig.



(c) Eglurwch pam mae'r diagram hwn yn gynrychioliad gwell o'r gronynnau sy'n ffurfio hydoddiant mwy crynodedig a llai crynodedig.


______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

**3.** Mae modd dangos crynodiad fel nifer y gramau a hydoddir i greu 1 $dm^3$ (1000 $cm^3$) o hydoddiant. Mae'r unedau'n cael eu hysgrifennu fel $g/dm^3$.

Mae hydoddiant **D** yn cynnwys 2 g mewn 1 $dm^3$.




**D**

(a) Rhowch grynodiad hydoddiant **D**: _____ $g/dm^3$

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

Mae hydoddiant **E** yn cynnwys 6 g mewn 2 $dm^3$.




**E**

(b) Pennwch nifer y gramau mewn 1 $dm^3$ o hydoddiant **E**: ______g

(c) Rhowch grynodiad hydoddiant **E**: _______g/$dm^3$

(d) Nodwch pa hydoddiant sydd fwyaf crynodedig. Hydoddiant _______

Mae trydydd hydoddiant yn cael ei greu. Mae hydoddiant **F** yn cynnwys 4 g mewn 0.5 $dm^3$.



**F**

(e) Pennwch nifer y gramau a fyddai mewn 1 $dm^3$ o hydoddiant **F**: ______g

(f) Rhowch grynodiad hydoddiant **F**: ______g/$dm^3$

(g) Nodwch a yw hydoddiant **F** yn **fwy** neu yn **llai** crynodedig na hydoddiant **D**.

__________

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

**4.** Gellir cyfrifo crynodiad drwy ddefnyddio'r fformiwla fathemategol hon:

$$\text{concentration (in g/dm}^3\text{)} = \frac{\text{mass (in g)}}{\text{volume (in dm}^3\text{)}}$$

Er bod yr unedau crynodiad bob amser yn cael eu rhoi fel nifer y gramau fesul $dm^3$, mae cyfaint yn aml yn cael ei fesur mewn $cm^3$.
1 $dm^3$ = 1000 $cm^3$. I newid o $cm^3$ i $dm^3$ rhannwch â 1000.

(a) Llenwch y tabl i drosi'r cyfeintiau mewn $cm^3$ i gyfeintiau mewn $dm^3$.

rhannu â 1000

| Cyfaint mewn $cm^3$ | Cyfaint mewn $dm^3$ |
|---|---|
| 1000 | |
| 5000 | |
| 500 | |
| 50 | |
| 100 | |
| 10 | |
| 250 | |
| 25 | |

(b) Llenwch y tabl i bennu crynodiad pob hydoddiant.

| Màs mewn g | cyfaint mewn $cm^3$ | cyfaint mewn $dm^3$ | crynodiad mewn g/$dm^3$ |
|---|---|---|---|
| 0.5 | 50 | | |
| 0.1 | 25 | | |
| 0.2 | 10 | | |

**5.** Mae hydoddiant halwyn yn cael ei arllwys i wahanol gynwysyddion. Crynodiad yr hydoddiant yw 100 g/$dm^3$.

Mae bicer mawr yn cynnwys 1000 $cm^3$ o'r hydoddiant halwyn.

(a) Pennwch fàs yr halwyn sydd wedi hydoddi. ____________g


© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

(b) Gellir defnyddio fformiwla fathemategol i gyfrifo màs yr halwyn sydd wedi hydoddi mewn cyfaint penodol o hydoddiant.

$$\text{mass (in g)} = \text{concentration (in g/dm}^3) \times \text{volume (in dm}^3)$$

Eglurwch pam ei bod hi'n bwysig trosi cyfaint yr hydoddiant i $dm^3$.

(c) Cyfrifwch fàs yr halwyn ym mhob cynhwysydd.




Fflasg gonigol · Bicer · Bwred · Tiwb profi

i. Fflasg gonigol

ii. Bicer

iii. Bwred

iv. Tiwb profi

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol